

## ***Polisi Cwricwlwm / Curriculum Policy***



### ***Ysgol Cae Top***

***Dyddiad Cymeradwyo/Date Adopted: June 2024***

***Dyddiad Adolygu/Review Date: Mehefin 2024 / June 2025***

**Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr:  
Signed on behalf of the Chair of the Governors:**

A handwritten signature in black ink, consisting of a large, stylized 'L' followed by a horizontal line and a small flourish.

Mae Deddf Addysg 2002 yn nodi'r gofynion ar gyfer cwricwlwm cytbwys ac eang.

## 1. Cyflwyniad

Y cwricwlwm yw'r gweithgareddau a drefnwn er mwyn hybu dysgu ac annog datblygiad personol y plant.

Mae'n cynnwys pethau eraill yn ychwanegol at ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, sef y gweithgareddau allgyrsiol a drefnir er mwyn cyfoethogi profiad y plant.

Mae'n cynnwys y hefyd yr hyn y mae'r plant yn ei ddysgu o ddisgwyliadau eraill ohonynt ac a ddysgant o'r ffordd y cânt eu trin.

Ein hamcan yn yr Ysgol yw arfogi'r plant a'r bobl ifanc i gyflawni'r safonau uchaf ac i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau sy'n eu galluogi i fyw a ffynnu'n lleol.

## 2. Gwerthoedd

Mae cwricwlwm yr Ysgol wedi ei selio ar y gwerthoedd hynny sy'n bwysig i ni. Y cwricwlwm yw'r modd yr ydym yn llwyddo yn y bwriad o addysgu'r plant mewn gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth fel eu bod yn gallu byw bywydau gwerthfawr.

Dyma'r prif werthoedd sy'n sail i'r cwricwlwm:

- Rydyn ni'n parchu bod pob plentyn yn unigryw, ac mae ein cwricwlwm yn hybu parch at farn plant unigol, ynghyd a pharch at ddiwylliannau eraill. Rydyn ni'n credu bod datblygiad ysbrydol a moesol pob person yn bwysig, ynghyd a'u datblygiad corfforol a deallusol.
- Rydyn ni'n gweld gwerth ym mhob aelod o'r gymuned. Mae'r cwricwlwm yn cael ei drefnu fel bod cydweithio cyson gydag aelodau'r gymuned.
- Rydyn ni'n gwerthfawrogi hawliau pawb yn y gymdeithas. Rydyn ni'n trin pob plentyn yn deg ac yn onest. Rydyn ni'n anelu at alluogi pawb i lwyddo, ac rydyn ni'n darparu cyfle cyfartal i bob plentyn.
- Rydyn ni'n parchu'n hamgylchfyd, a thrwy'r cwricwlwm rydyn ni'n dysgu parch at y byd. Rydyn ni'n sôn am bwysigrwydd gofalu am y byd i'r cenedlaethau sydd eto i ddod.

## 3. Nodau

Nodau'r cwricwlwm yw:

- Galluogi'r plant i ddysgu a datblygu eu sgiliau hyd eithaf eu gallu;
- Hybu agwedd iach tuag at ddysgu, fel bod plant yn mwynhau dod i'r ysgol, er mwyn creu sylfaen gadarn tuag at ddysgu gydol oes;
- Addysgu'r sgiliau sylfaenol o lythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth;
- Galluogi'r plant i fod yn greadigol ac i ddatblygu ffordd o feddwl drostynt eu hunain;
- Addysgu'r plant am y byd sy'n datblygu o'u hamgylch, yn cynnwys y ffordd y mae eu hamgylchfyd a'u cymdeithas wedi newid ar hyd y blynyddoedd;
- Helpu'r plant i ddeall treftadaeth ddiwylliannol ein gwlad;
- Galluogi'r plant i fod yn ddinasyddion cadarnhaol yn ein cymdeithas;
- Cyflawni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Maes Llafur Lleol mewn Addysg Grefyddol;
- Dysgu plant i fod yn ymwybodol o'u datblygiad ysbrydol ac i wahaniaethu rhwng da a drwg;
- Cynorthwyo plant i ddeall pwysigrwydd gonestrwydd a thegwch, fel eu bod yn tyfu i wybod bod cyfle i bawb yn bwysig;
- Sicrhau fod pob maes yn rhoi sylw i'r cwricwlwm Cymreig.
- galluogi'r plant i barchu eu hunain, er mwyn gallu byw a chyd-weithio gydag eraill.

#### 4. Iaith

Yn unol â pholisi iaith yr Awdurdod, datblygu gallu'r disgyblion i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

#### 5. Datblygiad y Cwricwlwm

Yr ydym yn cynllunio i ddatblygu cwricwlwm gyda gweithgareddau dysgu priodol sy'n:

- Canolbwyntio ar anghenion dysgwyr ac yn eu diwallu
- Cynhwysol ac yn cynnig cyfle cyfartal
- Rhoi sgiliau trosglwyddadwy i ddysgwyr
- Hyrwyddo dwyieithrwydd gweithredol yn effeithiol
- Perthnasol, heriol, diddorol ac yn cynnig mwynhad i bob dysgwr
- Trawsnewid dysgu i gynhyrchu dysgwyr gydol oes ddyfeisgar, gadarn a myfyriol
- Cyraeddadwy ac iddo adnoddau digonol.

#### 6. Trefniadaeth a Chynllunio

Rydyn ni'n cynllunio'r cwricwlwm mewn tri chlyfnod. Rydym ni'n cytuno ar gynllun hirdymor ar gyfer pob cyfnod allweddol. Mae'r cynllun hwn yn dangos beth sy'n mynd i gael ei addysgu ym mhob tymor i bob Blwyddyn ysgol. Rydym ni'n adolygu'r cynllun hirdymor fel rhan o'r broses adolygu.

Mae gennym gynlluniau gwaith sy'n gosod arweiniad eglur ynglŷn â nod ac amcanion y strategaethau dysgu a defnyddir. Dyma a elwir yn gynllun tymor canol.

Y cynlluniau byr dymor yw'r rhai a ysgrifennir yn bythefnosol. Yma, gosodir allan y sgiliau ar gyfer bob sesiwn, a nodir pa adnoddau a gweithgareddau a ddefnyddir. Rydym ni hefyd yn clustnodi cyfleoedd asesu fel bod gwybodaeth werthfawr gennym ar gyfer cynllunio yn y dyfodol.

Yn y Blynyddoedd Cynnar rydym ni'n defnyddio argymhellion Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'r gweithgareddau yn cael eu cynllunio yn ofalus er mwyn sicrhau bod dilyniant a pharhad yn y gwaith.

Ym mlynnyddoedd 3 i 6 fe addysgir y pynciau craidd ar wahân. Felly, mewn un tymor fe ellir canolbwyntio ar bwnc hanesyddol, ond yna mewn tymor arall bydd pwyslais ar bwnc daearyddol. Yn ystod y flwyddyn addysgiadol bydd pob plentyn wedi cael cyfle i brofi'r ystod lawn o bynciau o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol.

#### 7. Plant ag Anghenion Arbennig

Mae cwricwlwm ein hysgol wedi ei greu er mwyn rhoi cyfle i bob plentyn. Os credwn fod angen addasu'r cwricwlwm i gwrdd ag anghenion arbennig plentyn unigol, yna gwnawn hynny ar ôl ymgynghori gyda rhieni'r plentyn ac arbenigwyr eraill pe bai'r angen.

Os oes anghenion arbennig gan blentyn, mae ein hysgol yn ceisio ei gorau i gwrdd â'r anghenion hynny. Rydym ni'n cyflawni'r gofynion a osodir yn y Cod Ymarfer ADY wrth ddarparu ar gyfer plant ag anghenion arbennig. Os yw plentyn yn dangos arwyddion o fod ag anghenion arbennig, bydd yr athro/awes yn cynnal asesiad. Fel arfer bydd yr athro/awes yn gallu darparu adnoddau a chyfleoedd addysgu er mwyn cwrdd â'r anghenion o fewn trefniadaeth arferol dosbarth. Os yw angen y plentyn yn fwy dwys, rydym ni'n ystyried a oes angen datganiad o anghenion arbennig ar y plentyn, a gwawn hyn mewn ymgynghoriad ad asiantaethau allanol perthnasol. Rydym ni bob amser yn darparu adnoddau a chymorth ychwanegol.

Mae'r ysgol yn paratoi Cynllun Addysg Bersonol ar gyfer yr holl blant sydd ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cynllun yn gosod allan beth yw natur eu hanghenion, ac mae'n amlinellu sut mae'r ysgol yn bwriadu cwrdd â'r angen. Mae'r cynllun hefyd yn gosod allan beth yw'r targedau ar gyfer ddangos cynnydd, fel y gallwn adolygu a monitro datblygiad y plentyn yn gyson.

## 8. Y Blynyddoedd Cynnar

Mae'r cwricwlwm yn y Blynyddoedd Cynnar yn dilyn gofynion y cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen. Mae ein cynllunio yn canolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau a'r profiadau a nodir yn y cwricwlwm.

Yr ydym yn cynllunio'n ofalus i blant ifanc ddysgu wrth chwarae. Mae'r addysg yn y dosbarth derbyn yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd yn yr uned Feithrin. Rydyn ni'n datblygu partneriaeth dda gyda'r meithrinfeydd amrywiol sy'n bwydo'r uned a'r dosbarth derbyn, yn ogystal â'n huned Feithrin ni.

Yn ystod y tymor cyntaf yn y dosbarth derbyn, mae'r athro/awes yn cynnal asesiad sylfaenol er mwyn cofnodi sgiliau'r plant unigol ar gychwyn eu gyrfa ysgol. Mae'r asesiad hwn yn bwysig wrth gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer pob plentyn i'r dyfodol.

Rydyn ni'n ymwybodol bod angen cefnogaeth rhieni ac athrawon er mwyn i blant ddangos cynnydd yn yr ysgol. Rydyn ni'n ymdrechu i gysylltu gyda rhieni plant er mwyn iddynt wybod beth yw natur addysg a chynnydd eu plant.

## 9. Rôl yr arweinydd Pwnc

Rôl yr arweinydd pwnc yw:

- Darparu arweiniad a chyfeiriad ar gyfer y pwnc
- Cefnogi'r staff a chynghori ynglŷn â materion yn ymwneud â'r pwnc;
- Monitro datblygiad y disgyblion o fewn y pwnc;
- Darparu rheolaeth effeithiol o'r adnoddau ar gyfer y pwnc.

Rydyn ni'n rhoi amser digyswllt i'r arweinyddion pwnc, er mwyn eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau. Dylai'r arweinydd pwnc wybod am y datblygiadau diweddaraf yn eu pwnc, ar lefel cenedlaethol a lleol. Maen nhw'n adolygu'r modd y caiff pwnc ei addysgu yn yr ysgol, ac maent yn cynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae'r cynllunio yma yn cyd-fynd ag amcanion cyffredinol yr ysgol gyfan. Mae'r arweinydd pwnc yn adolygu'r cynlluniau cwricwlwm ar gyfer eu pwnc, er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm Cenedlaethol yn cael ei gwrdd yn llawn. Maent hefyd yn sicrhau bod parhad a dilyniant yn rhan o'r cynlluniau gwaith. Maent hefyd yn cadw portffolio o waith plant, er mwyn dangos lefelau cyraeddiadau plant o fewn y cyfnodau allweddol a dangos enghrefftiau o'r hyn a ddisgwyllir.

## 10. Monitro ac adolygu

Corff Llywodraethol sy'n gyfrifol am fonitro'r ffordd y mae'r cwricwlwm yn cael ei weithredu. Maent yn adolygu pob pwnc Cwricwlaidd bob dwy flynedd - am fanylion pellach gweler y CDY a'r amserlen Monitro.

Mae gennym lywodraethwyr wedi eu henwi i fod yn gyfrifol am gysgodi arweinyddion pynciol. Maent yn cysylltu gyda'r arweinyddion pwnc ac yn rhan o weithredu hunan arfarnu.

Mae'r pennaeth yn gyfrifol am drefniadaeth ddyddiol y cwricwlwm. Mae'n monitro'r cynlluniau gwersi'n bythefnosol ar gyfer yr holl athrawon, er mwyn sicrhau bod y gwersi yn dilyn gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, a bod sgiliau dysgu addas i'r gwersi.

Mae'r arweinyddion pwnc yn monitro'r ffordd y caiff y pwnc ei addysgu yn yr ysgol. Maent yn edrych ar y cynllunio hirdymor, er mwyn sicrhau bod strategaethau perthnasol yn cael eu defnyddio. Mae'r arweinyddion pwnc hefyd yn gyfrifol am fonitro'r defnydd a'r rheolaeth o'r adnoddau.

The Education Act 2002, notes the requirements for a balanced and broad curriculum.

## 1. Introduction

The curriculum is the activities we organise to promote learning and encourage the children's personal development.

It includes other matters in addition to the requirements of the National Curriculum, namely extra-curricular activities organised to enrich the children's experience.

It also comprises what children learn from other people's expectations of them and what they learn from the way they are treated.

Our aim in the School is to empower children and young people to achieve the highest standards and to nurture the qualifications and skills that enable them to live and prosper locally.

## 2. Values

The School curriculum is based on those values that are important to us. The curriculum is the way that we achieve our aim to teach knowledge, skills and understanding to the children in order that they can live valuable lives.

These are the main values that are the basis of the curriculum:

- We respect that every child is unique, and our curriculum promotes respect of the views of individual children together with respect to other cultures. We believe that the spiritual and moral development of every person is important, together with their physical and intellectual development.
- We see a value in every member of the community. The curriculum is arranged in order that there is consistent cooperation with members of the community.
- We appreciate everybody's rights within the society. We treat every child fairly and honestly. We aim to enable all to succeed, and we provide an equal opportunity for every child.
- We respect our environment, and through the curriculum we learn to respect the world. We talk of the importance of caring for the world for the generations to come.

## 3. Aims

The curriculum's aims are:

- Enable children to learn and develop their skills to the best of their ability;
- Promote a healthy attitude towards learning, in order that children enjoy coming to school, to create a strong foundation for lifelong learning;
- Teach the basic skills of literacy, numeracy and information technology;
- Enable children to be creative and develop a way of thinking for themselves;
- Teach children about the developing world around them, including the way their environment and society has changed over the years;
- Assist children to understand our country's cultural heritage;
- Enable children to be positive citizens in our society;
- Achieve the requirements of the National Curriculum and the Locally Agreed Syllabus for Religious Education;
- Educate children to be aware of their spiritual development and to differentiate between good and bad;
- Assist children to understand the importance of honesty and fairness, so that they grow up knowing that everyone has an opportunity to be valued;
- Ensure that every area gives attention to the Welsh curriculum.
- Enable children to respect themselves, to be able to live and cooperate with others.

#### **4. Language**

In accordance with the Authority's language policy, develop the pupils' ability to be confident bilingually to enable them to become rounded members of the bilingual society that they are part of.

#### **5. Curriculum Development**

We plan to develop a curriculum with appropriate learning activities that:

- Focuses on learners' needs and satisfy them
- Are inclusive and offer equal opportunity
- Give learners transferable skills
- Effectively promotes active bilingualism
- Relevant, challenging, interesting and offers enjoyment to every learner
- Transforms learning to produce inventive, robust and reflective lifelong learners
- Achievable with sufficient resources.

#### **6. Organisation and Planning**

We plan the curriculum in three phases. We agree on a long-term plan for each key stage. This plan indicates what will be taught in each term to each school Year. We review the long-term plan as part of the review process.

We have work plans that set a clear guide regarding the aim and objectives of the learning strategies used. This is what is called a medium term plan.

The short-term plans are those that are written every fortnight. Here, the skills for each session are set out and what resources and activities used are noted. We also earmark assessment opportunities in order that we have valuable information for future planning.

In the Early Years we use the recommendations of the Foundation Phase Curriculum. The activities are planned carefully to ensure that there is progression and continuation in the work.

In years 3 to 6 the core subjects are taught separately. Therefore, in one term it is possible to focus on a historical subject, then in another term there will be a focus on a geography subject. During the educational year every child will have been given an opportunity to experience the full range of subjects within the National Curriculum.

#### **7. Children and Special Needs**

Our school's curriculum has been created to give every child an opportunity. If we believe that the curriculum needs to be adapted to meet with a child's special needs, then we will do so following consultation with the child's parents and other experts if required.

If the child has special needs our school will try its best to meet with those needs. We achieve the needs set in the ALN Code of Practice in providing for children with special needs. If a child indicates signs of having special needs, the teacher will carry out an assessment. Usually the teacher will be able to provide learning resources and opportunities to meet with the needs within the usual classroom arrangement. If the child's needs are more intensive, we will consider if a statement of the child's special needs is required, and we will do this in consultation with the relevant external agencies. We always provide additional resources and support.

The school is preparing the Personal Education Plan for all the children on the additional learning needs register. The Plan sets out what the nature of their needs are, and outlines how the school intends to meet them. The plan also sets out what are the targets to show progress, so that we can regularly review and monitor the child's development.

## 8. The Early Years

The Early Years curriculum follows the national requirements for the Foundation Phase. Our planning focuses on developing skills and the experiences noted in the curriculum.

We plan carefully for young children to learn through play. Education in the reception class builds upon what was learnt in the Nursery unit. We have developed a good partnership with the various nurseries that feed into the unit and the reception class, as well as our own Nursery unit.

During the first term in the reception class, the teacher conducts a basic assessment to record the skills of individual children at the start of their school career. This assessment is important in planning the curriculum for each child in the future.

We are aware that support is required from parents and teachers for the children to show progress in school. We endeavour to contact the parents of the children in order that they know what is the nature of their children's education and progress.

## 9. Subject Leader's Role

Subject Leader's Role is to:

- Provide guidance and direction for the subject;
- Support staff and advise regarding matters relating to the subject;
- Monitor the pupils' development within the subject;
- Provide effective management of the resources for the subject.

We give subject leaders non-contact time to enable them to undertake their duties. The subject leader should know of the latest developments in their subject, at a national and local level. They review the way the subject is taught at school, and plan for the future. This planning is in accordance with the general objectives of the whole school. The subject leader will review the curriculum plans for their subject, in order to ensure that the National Curriculum is fully met. They also ensure that continuation and progression are part of the work plans. They also retain a portfolio of children's work, to show the attainment levels of children within the key stages and show examples of what is expected.

## 10. Monitoring and Reviewing

The Governing Body is responsible for monitoring the way the curriculum is implemented. They review each Curriculum subject every two years - for further details please see the SDP and the Monitoring timetable.

We have named governors who are responsible for shadowing the subject leaders. They contact the subject leaders and are part of the self-evaluation process.

The Headteacher is responsible for the curriculum's daily organisation. He/she monitors the lesson plans every fortnight for all teachers, in order to ensure that the lessons follow the National Curriculum requirements and that the lessons have suitable learning skills.

Subject leaders monitor the way that the subject is taught at the school. They look at the long-term planning in order to ensure that relevant strategies are used. Subject leaders are also responsible for monitoring the use and management of resources.